# Canolfan Addysg Y Bont

**Adroddiad Blynyddol Corff Llywodraethol i Rieni**

**2022-2023**






## Manylion cyfarfodydd (gan gynnwys rhithiol) y Corff Llywodraethol

Cynhaliwyd gyfarfodydd Corff Llawn a neu arbennig/Covid ar y dyddiau canlynol:

13/10/22 – Corff Llawn
20/12/22 – Corff Llawn
23/03/23 – Corff Llawn
26/04/23 – Is Banel Cyllid
26/04/23 – Is Banel Personél
18/05/23 – Corff Llawn

## Cyfarfodydd Blynyddol y Llywodraethwr gyda rhieni

Ni gynhaliwyd gyfarfod blynyddol llywodraethwyr i rieni yn 2022-2023 gan nad oedd canran penodol o rieni wedi ymateb drwy ddeiseb.

Cafodd rhieni gyfarfod gydag Arolygwyr ESTYN ym mis Mai 2023.

# Canolfan Addysg Y Bont

## Adroddiad Blynyddol Corff Llywodraethol i Rieni

## 2022-2023

## Aelodaeth y Corff Llywodraethol

| | | |
|---|---|---|
| Peter Davies (Cadeirydd, Amddiffyn Plant) | - | Cyfetholedig |
| Dylan Rees (Is-gadeirydd) | - | AALl |
| Dyfrig ap Dafydd | - | AALl |
| Donna Calveley | - | Cynrychiolydd Rhieni |
| Eileen Clarke (Amddiffyn Plant) | - | Cyfetholedig/Cynrychiolydd Mudiadau Gwirfoddol |
| Gwilym Pritchard | - | Cynrychiolydd Mudiadau Gwirfoddol |
| Sean Snape | - | Cynrychiolydd Rhieni |
| Iris Williams | - | Cynrychiolydd Rhieni |
| Carys Thomas | - | Cynrychiolydd Rhieni |
| Lloyd Williams | - | AALl |
| Dawn Hoban | - | Athrawon |
| Gwenan Williams | - | Staff |
| Andreas Huws | - | Pennaeth |
| Iona Ponsonby | - | Clerc |

Gellir cysylltu gyda Iona Ponsonby neu Peter Davies drwy gysylltu â Canolfan Addysg Y Bont

Gweler Pennod 4 o 'Welsh Government Guide to the Law'



## Presenoldeb

| | 16/17 | 17/18 | 18/19 | 19/20 | 20/21 | 21/22 | 22/23 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Absenoldebau awdurdodedig %** | 4.4 | 4.9 | 5.4 | 4 | 6.2 | 7.9 | 8.5 |
| **Absenoldebau anawdurdodedig %** | 0 | 0.05 | 0 | 0 | 0 | 0.3 | 0.2 |
| **Pob absenoldeb %** | 4.4 | 5.04 | 5.4 | 4 | 6.2 | 8.2 | 8.7 |
| **Presenoldeb %** | 95.6 | 94.96 | 94.6 | 96 (94.5 hyd at 23/03) | 93.8 | 91.8 | 91.3 |

## Prif Lwyddiannau'r Flwyddyn

- Parhau i ail gyflwyno addysg y tu hwnt i'r safle
- Holl ddisgyblion Uwchradd yn symud yn ôl i dderbyn addysg yn y prif-adeilad (Ionawr 2023)
- Cymryd rhan mewn ystod o weithgareddau a phrosiectau diwyllianôl a chreadigol
- Derbyn adroddiad rhagorol gan ESTYN yn dilyn arolygiad llawn yn Mai 2023
- Llwyddiant wrth gynnig am arian grant er mwyn datblygu'r ardaloedd dysgu allanol

## Addysg Gorfforol

Mae'r ysgol wedi medru parhau i roi cyfleoedd gwahanol i'r disgyblion i ddatblygu eu galluoedd corfforol drwy brofi amrywiol chwaraeon a chystadlaethau gan gynnwys Mabolgampau/Chwaraeon Cenedlaethol a Marchogaeth i'r Anabl, Gymnasteg, 'Anglesey Outdoors', Hyfforddiant penodol e.e. Hoci, Tenis a Rygbi, cystadlaethau pêl-fasged, nofio, rhedeg traws gwlad, bowlio a criced.





Mae'r Swyddog Llesiant Hwb wedi cyfrannu at ychwanegu I'r ddarpariaeth Addysg gorfforol a iechyd a lles.

## Cyfleusterau Toiled

Mae 8 ystafell toiled yn yr ysgol i ddisgyblion (4 i ferched a 4 i fechgyn). Mae toiled sydd yn addas i ddefnyddwyr cadair olwyn ymhob ardal o'r ysgol. Yn ystod y tymor ysgol mae'r toiledau yma yn cael eu glanhau a'u cynnal yn ddyddiol gan staff sydd wedi derbyn hyfforddiant.

# Datganiad Llawn o Wariant ac Incwm yr ysgol

| Gwariant | £ |
|---|---|
| Gweithwyr | 2,199,070 |
| Adeiladau | 218,540 |
| Cyflenwadau A Gwasanaethau | 36,180 |
| Costau cerbydau | 6,730 |
| Datganoli | 31,310 |
| Cyfanswm Gwariant | 2,491,830 |
| Incwm | |
| Grantiau | 39,100 |
| Arian All Sirol | 35,700 |
| **CYFANSWM INCWM** | 74,800 |
| **CYFANSWM NET GWARIANT** | 2,417,030 |
| **DYRANIAD (heb y grantiau)** | 2,430,570 |
| **Gwahaniaeth 2021/2022** | -13,540 |

## Grantiau

Mae'r datganiad hwn yn ganlyniad i waith dadansoddi a chynllunio sydd wedi ei gymeradwyo gan yr Is-banel Cyllid a'r corff llywodraethu.

Isod amlinellir diffygion sylweddol y fformiwla dyrannu sydd yn destun rwystredigaeth i'r C.Ll. Er mwyn medru cynllunio'n gall at y dyfodol, ac er mwyn osgoi sefyllfa argyfyngus mi fydd rhaid i'r canlynol dderbyn sylw;

- Bod CAYB yn derbyn cyllid am wir niferoedd. Gosodwyd capasiti o 90 disgybl arnom yn 2016/17 gan yr Awdurdod Addysg
- Bod dealltwriaeth y bydd CAYB o bosib yn mynd i'r coch er mwyn ariannu darpariaeth 1:1 neu 2:1 angenrheidiol
- Bod dealltwriaeth y bydd angen asesu gofod/capasiti corfforol CAYB os oes bwriad i leoli rhagor o ddisgyblion yn 2022-2024 gan fod 'gofod' bellach yn brin

**Gwybodaeth Grantiau 2020-23**

| Manylion | 20/21 Swm £ | 21/22 Swm £ | 22/23 Swm £ | Gwariant/Arfarniad Cryno 20/22 |
|---|---|---|---|---|
| Grant Carlam | 6,866 | 7,637.00 | 11,901.58 | • Cyflogi athro 2 ddiwrnod y wythnos 04/22-08/22 er mwyn cynyddu capasiti a lleihau ar y gymhareb disgybl/oedolyn. Parhau â'r trefniant yma 09/22 i 03/23 |
| Grant Recruit Recover Raise Standards (Ychwanegol) | 6,143 | 7,409.00 | | • Sicrhau hyblygrwydd â chynnydd yn ein capasiti i sicrhau addysg wyneb i wyneb; gwariant cyflenwi<br>Noder: nid oes dyraniad i 2022/23 |
| Grant Datblygu Disgyblion (GDD) | 33,350 | 35,650.00 | 37,950 | • Staffio - Ymestyn ar ein capasiti staffio er mwyn cefnogi dysgwyr bregus, a sicrhau gwell cymhareb disgybl:oedolyn<br>• Staffio - Gweithredu ar ystod ymyrraethau cynnar ac asesiadau arbennigol<br>• Adnoddau - Hyfforddiant Makaton<br>• Adnoddau Ysgol Gyfathrebu Gyfeillgar gan gynnwys rhyddhau LC Medi 09/22 |
| Grant Datblygu Disgyblion – Blynyddoedd Cynnar | 4,600 | 3,450.00 | 3,450 | • Staffio – Cyflogi cymhorthydd 1 diwrnod yr wythnos yn y Cyfnod Sylfaen<br>• Parhau i wella ein banc adnoddau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Grant Gwella Addysg (GGA) | 19,648 | 22,025.00 | 22,542 | • Staffio – Arweinwyr yn cydweithio mewn system hunanwella<br>• Staffio – Rhoi sylw i rwystrau i'r dysgu a gwella cynhwysiant<br>• Adnoddau – Archebu adnoddau arbenigol, adnoddau PECS<br>• Dysgu Proffesiynol – Hyfforddiant Makaton, Equals, Datblygiad Llwybrau Dysgu draws Ysgol |
| Grant Dysgu Proffesiynol (GDP) | 3,939 | 6,753.00 | 7,244 | Dysgu Proffesiynol – Peter Imray/Les Daves - Sicrhau cynnydd yn erbyn Blaenoriaethau Cynllun Gwella Ysgol parthed CiF/Pathways – Datblygu Rhifedd Arbenigol; Hyfforddiant ôl-raddedig arbenigol<br>• Costau hyfforddiant MAPP<br>• Costau cydweithio Equals |
| Grant LAC PDG | 2,000 trosglwyddo i 21/22 | 2,000.00 | | • Offer TG yn y dosbarthiadau perthnasol |
| Cynnal a Chadw (Llywodraeth Cymru) | 12,876 | 13,928.60 | | Cyfrannu tuag at costau glanhau ac unrhyw waith Cynnal a Chadw |
| Grant Gaeaf Llawn Lles | | 2,284.03 | | Gymnasteg, Offer Ymarfer Corff |
| Grant ADY System Newydd | | 11,383.33 | | Costau gweinyddol ychwanegol fel deilliant i weinyddu'r prosesau newydd a sicrhau capasiti wrth gynnal adolygiadau CDU |
| Grant ADY COVID | | 5,000 | | Cefnogi dysgwyr ADY – blaenoriaethu targedu'r dysgwyr mwyaf anghenus |
| Period Dignity Grant | 40 | 45.41 | | Archebu nwyddau pwrpasol |
| Grant Chwyddiant Athrawon | | 8,730.00 | | |
| Rhannu Cyllid Pontio Bl11, 12 a 13 | | 1,527.00 | | Gwariant ar Gwricwlwm ôl-16 |
| Grant ALN 20/21 | | 1,395.80 | | Gwariant ar agweddau'n ymwneud â mabwysiadu'r Bil ADY |
| Dyrannu arian CYSAG – Ysgolion Bach a Gwledig | | 380.00 | | Gwariant Dyniaethau |

**Camau a gymerwyd i gryfhau cysylltiadau cymunedol**

Serch heriau Covid mae'r Corff wedi parhau yn ei hymdrech i gynnal y ddolen gyswllt sydd rhwng y gymuned leol a'r ysgol,  er mwyn galluogi'r disgyblion i ddysgu ymddwyn a rhyngweithio yn foddhaol mewn gwahanol sefyllfaoedd.
Y mae'r gweithgareddau yn cynnwys y canlynol:
Ymateb cadarn i'r agenda Covid, gan gynnwys sicrhau Canolfan Gofal Hwb yn ystod y pandemic
Rhwydweithiau Datblygiad Proffesiynol Prifysgol Bangor
Cefnogi digwyddiadau cymunedol drwy'r Adran Gerddoriaeth, Celf ac Addysg Gorfforol
Reidio i'r Anabledd – Riding for the Disabled Association (RDA)
Cyd weithio yn y gymuned gyda Gorwel - Profiad gwiath ac addysg awyr agored
Cysylltiad y Prince's Trust/John Eggins Trust/Mencap
Cydweithio â Hwb Llesîant WRU
Cynnal Ffair Gyrfaedd yn CAYB
Cysylltiad â Menter Môn, Oriel Môn
Theatr a phantomeim/arddangosfeydd Celf , Dawns i Bawb
Cystadlaethau lleol a chenedlaethol yr Urdd
Ymweld â lleoliadau hanesyddol diddorol yn ein hardal
Cyswllt ag ysgolion a cholegau eraill ynghyd a phrofiadau gwaith i ddisgyblion
Ymweliadau a busnesau lleol
Ymweliadau Ysgol Goedwig
Ymweliadau Heddlu i'r ysgol
Cyswllt â Cerddorfa Cenedlaethol Cymru (BBC)
Sesiynau gyrfaoedd yn Hwb Mencap Môn
Ail-integreiddio disgyblion i ddarpariaeth prif-lif
Cydweithio ysgol i ysgol effeithiol
Cydweithio effeithiol gyda'r Wasanaeth Nyrsio Llesiant (CAMHS)
Cynnal sesiynau Rygbi a Hoci i ddisgyblion
Hoffai'r gymuned ysgol ddiolch i'r gymuned leol am fod mor amyneddgar a pharod i gyd-weithio â'r ysgol wrth i ni wynebu'r holl heriau ynghlwm â'r gwaith adfer sylweddol. Mae'r effaith o cyd-fyw yn ystod prosiect mawr o adeiladu wedi bod yn sylweddol, ac rydym yn falch o fedru datgan bod y gwaith wedi dod i derfyn yn Ionawr 2023.

## Blaenoriaethau CGY 2023-2024

**Blaenoriaeth1:**

Datblygiad ychwanegol a pharhaus i Gwricwlwm Y Bont;

i) Ymestyn pellach i model CAYB o'r Llwybrau Dysgu, a ffocws penodol ar y Llwybr Anffurfiol a Lled-Ffurfiol
ii) Ymestyn MAPP i'r holl ddosbarthiadau anffurfiol (asesu)
iii) Datblygu EfL fel peilot (anffurfiol)
iv) Ymateb lawn i'r strategaeth YGG

**Blaenoriaeth 2:**

Ehangu'r profiadau Dysgu drwy gwneud defnydd fwy pwrpasol o'r adnoddau allanol ac arbenigol

**Blaenoriaeth 3:**

Gweithredu'r Cynllun Fframwaith Iechyd a Lles draws ysgol;

i) Sicrhau ymateb i'r canfyddiadau awdit
ii) Sicrhau cynnydd meintiol i camau gweithredu'r Bont gan ddangos yn glir y cyswllt i ofynion y Fframwaith

**Blaenoriaeth 4:**

Ymateb a gweithredu pellach, (a mwy cynhwysfawr) i ganllawiau cenedlaethol/consortia; yn benodol –

**Canllawiau gwella ysgolion (Mehefin 2022): fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd**

**Blaenoriaeth 5:**

Cryfhau'r gweithdrefnau hunanwerthuso drwy gwell fesur effaith y gweithredoedd ar safonau disgyblion ac ansawdd yr addysgu

**<u>Blaenoriaeth 6:</u>**

Parhau i ymateb i'r agenda capasiti sydd yn dylanwadu'n sylweddol ar gweithdrefnau a darpariaeth CAYB

**Tymhorau'r Flwyddyn**

| | | |
|---|---|---|
| 01 Medi 22 | - | 23 Rhagfyr 22 |
| 9 Ionawr 23 | - | 31 Mawrth 23 |
| 17 Ebrill 23 | - | 20 Gorffennaf 23 |

Roedd yr ysgol ar gau i ddisgyblion ar y dyddiau canlynol oherwydd HMS i athrawon

01/09/22, 30/09/22, 09/01/23, 03/02/23, 17/04/23, 26/05/23